# Cymorth Cyfreithiol Troseddol – Ymateb i Ymgynghoriad Troseddau Is

## Cefndir

Cyhoeddwyd papur ymgynghori Troseddau Is ar 29 Ionawr 2024. Gwahoddodd sylwadau ar y cynigion a'r camau nesaf ar gyfer diwygio cynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol sy'n dod o dan Droseddau Is. Mae Troseddau Is yn cynnwys gwaith a wneir gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol mewn gorsafoedd heddlu, yn y llysoedd ynadon mewn perthynas â phobl sydd wedi'u cyhuddo, neu wedi'u dedfrydu o droseddau, cyfraith carchardai a gwaith a gwblhawyd mewn perthynas â'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol.

Fel rhan o'r ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol (CLAIR), a roddodd ystyriaeth i'r ddarpariaeth cymorth cyfreithiol troseddol yng Nghymru a Lloegr, neilltuwyd £21.1 miliwn ychwanegol i gyfreithwyr ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol troseddol. Aeth yr ymgynghoriad Troseddau Is i'r afael â sut byddai'r £21.1 miliwn hwn yn cael ei ddosbarthu o fewn cynlluniau ffioedd gorsafoedd heddlu a Llysoedd Ieuenctid. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 28 Mawrth 2024, ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ymateb y Llywodraeth.

## Buddsoddi mewn Ffioedd Gorsafoedd Heddlu

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys dau opsiwn ar gyfer cynlluniau ffioedd gorsafoedd heddlu, gyda'r ddau yn cymryd cam tuag at gysoni'r 245 o gynlluniau gwahanol:

- Opsiwn 1: Defnyddio'r £16m (£18.5m erbyn hyn) i gysoni ffioedd drwy godi'r ffioedd isaf.
- Opsiwn 2: Defnyddio'r £16m (£18.5m erbyn hyn) i gysoni'r ffioedd isaf y tu allan i Lundain a'r ffioedd isaf yn Llundain.

O ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad Troseddau Is, bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen gydag opsiwn 2 i gysoni'r ffioedd isaf y tu allan i Lundain a'r ffioedd isaf yn Llundain. Bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar 6 Rhagfyr 2024. Mae Opsiwn 2 yn galluogi cysoni'r nifer fwyaf o gynlluniau ffioedd. Hwn hefyd oedd yr opsiwn roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ei gefnogi yn yr ymgynghoriad.

Bydd gweithredu'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â rhai o broblemau cyfuno'r ddalfa a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad drwy gysoni nifer o gynlluniau ffioedd gorsafoedd heddlu o fewn yr un rhanbarth. Ni fyddai'n bosib defnyddio'r cyllid sydd ar gael i gysoni holl gynlluniau ffioedd gorsafoedd heddlu oni bai fod rhai o'r ffioedd uchaf yn cael eu gostwng. Ni aethpwyd ar drywydd y dull hwn.

Ym mis Mehefin 2024, dangosodd yr ystadegau cymorth cyfreithiol a gyhoeddwyd gynnydd blynyddol yn niferoedd achosion gorsafoedd heddlu (tua 13% ar gyfer mynychu). Deilliodd lefelau'r ffioedd arfaethedig adeg yr ymgynghoriad gwreiddiol o ddata 2022-23, sef y diweddaraf oedd ar gael ar y pryd. O ystyried bod blwyddyn newydd o ddata bellach wedi'i gyhoeddi, mae'r dadansoddiad o effaith y ffioedd arfaethedig wedi'i ddiweddaru i ddefnyddio

data 2023-24. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos cynnydd o £16m i £18.5m mewn gwariant blynyddol yn seiliedig ar y ffioedd arfaethedig.

## Ymgysylltu Cyn-Cyhuddo

Mae ymgysylltu cyn-cyhuddo (PCE) yn cyfeirio at yr ymgysylltu gwirfoddol rhwng y partïon mewn ymchwiliad ar ôl cyfweliad cyntaf yr heddlu a chyn cyhuddo person dan amheuaeth yn ffurfiol.

Gweithredwyd y ddarpariaeth ar gyfer talu PCE yn 2021 a dim ond o ddyddiad y cytundeb rhwng y partïon perthnasol y caniataodd i daliad fod ar gael. Roedd hyn yn golygu nad oedd y gwaith paratoi a wnaed cyn y cytundeb yn cael ei dalu.

Daeth CLAIR i'r casgliad, er mwyn i'r PCE fod yn ystyrlon, mae angen i'r amddiffyniad wybod achos yr erlyniad, astudio'r dystiolaeth a chymryd cyfarwyddiadau cyn penderfynu a yw er lles gorau'r cleient i ymgysylltu. Roedd yr adroddiad yn argymell bod yr amddiffyniad yn cael ei ariannu i archwilio'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr heddlu cyn penderfynu a yw ymgysylltu'n briodol ai peidio. Ehangodd y Llywodraeth flaenorol gwmpas PCE i ganiatáu taliadau am waith paratoi ym mis Hydref 2022.

Gofynnodd yr ymgynghoriad Troseddau Is am adborth ar PCW er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae'n gweithredu ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn bwriadu adolygu lefelau presennol y ffioedd PCE ond byddwn yn parhau i adolygu'r penderfyniad hwn. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi cyhoeddi deunydd cyfathrebu pellach am sut i hawlio am Ymgysylltu Cyn-Cyhuddo (PCE) i godi ymwybyddiaeth ymhlith ymarferwyr ac i egluro'r broses.

## Cynllun Ffioedd ar wahân ar gyfer y Llys Ieuenctid

Mae'r Ymgynghoriad Troseddau Is yn argymell cynllun ffioedd newydd ar gyfer Llysoedd Ieuenctid a fyddai'n cynnwys ffi sefydlog uwch ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol (pob un yn ditiadwy ac achosion naill ffordd). Y ffi yr ymgynghorwyd arni oedd £658 (yn cynnwys TAW) neu £548.33 (ac eithrio TAW). Byddai hyn yn ychwanegol at y ffioedd presennol a delir am achosion y Llysoedd Ieuenctid o dan gynllun ffioedd ynadon.

Yn dilyn adborth positif ar y cyfan i'r cynnig yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cynllun ffioedd ar wahân ar gyfer Llysoedd Ieuenctid gyda ffioedd sefydlog uwch ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol. Mae hyn yn cynnwys troseddau ditiadwy a throseddau naill ffordd, ond nid troseddau diannod. Oherwydd gwelliannau methodolegol i'r ffordd y mae niferoedd ieuenctid yn cael eu cyfrif ac argaeledd data 2023, mae'r ffi uwch y buom yn ymgynghori arni wedi cynyddu o £548.33 (yn cynnwys TAW) i £598.59 (ac eithrio TAW).

Er ein bod wedi targedu'r cyllid yn bennaf at droseddau ditiadwy a throseddau naill ffordd, rydym wedi trin un drosedd ddiannod fel un sy'n dod o fewn y categori difrifol, ac un drosedd naill ffordd fel un sy'n dod o fewn y categori trosedd ddiannod at ddibenion cymhwyso a datgymhwyso'r ffi sefydlog uwch newydd, er mwyn caniatáu i ffioedd fod yn gyson â'r cynllun ffioedd presennol. Mae'r troseddau yn achosion sy'n ymwneud â throseddau naill ffordd y mae'n rhaid eu rhoi ar brawf mewn llys ynadon yn unol ag adran 22 o Ddeddf Llysoedd

Ynadon 1980 (troseddau naill ffordd penodol y gellir eu rhoi ar brawf yn ddiannod os yw'r gwerth dan sylw yn fach.)

Mae targedu'r cyllid yn y ffordd hon yn helpu i leihau'r gwahaniaeth rhwng y Llysoedd Ieuenctid a Llysoedd y Goron drwy flaenoriaethu achosion a fyddai'n cael eu talu ar gyfraddau Llys y Goron pe bai'r diffynnydd yn oedolyn. Mae hefyd yn cydnabod difrifoldeb yr achosion hyn a'r effaith fwy ar fywyd plentyn os cânt eu dedfrydu'n euog.

Ar gyfer troseddau diannod a all fod yn fwy cymhleth ac na fyddant yn derbyn y gyfradd uwch a gymhwysir i droseddau ditiadwy, gellir parhau i dalu lefel y ffioedd ansafonol a'r gyfradd uwch bresennol fesul awr, lle bo'n briodol.

## Tâl Teithio i Orsafoedd Heddlu

Wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cyfeiriodd nifer at yr heriau a brofodd rhai darparwyr wrth deithio ar siwrneiau hir i orsafoedd heddlu a'r ffaith na chafodd yr amser hwn ei ad-dalu'n ddigonol.

Yn dilyn ystyriaeth bellach, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cynllun sy'n talu am amser teithio mewn nifer fach o achosion ledled y wlad. Bydd hyn yn rhoi tâl am amser teithio mewn perthynas â chynlluniau â llai na dau ddarparwr ac Ynys Wyth yn ogystal ag i ddarparwyr o gynlluniau cyfagos sy'n gweithio o fewn ardaloedd y cynllun. Bydd yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd y cynlluniau hynny, y tu hwnt i'r trefniadau cyfredol ar gyfer y cynllun ffi sefydlog am bresenoldeb yng ngorsaf yr heddlu, sy'n cynnwys amser teithio fel rhan o'r ffi sefydlog.

## Cyfraith Carchardai a'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC)

Mae'r Ymgynghoriad Troseddau Is hefyd yn gwahodd safbwyntiau ar Gyfraith Carchardai a CCRC, yn benodol ar y cynllun arfaethedig i beidio â gwneud newidiadau ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio buddsoddiad yn lle hynny ar ddiwygio a gwella ymgysylltiad yng nghamau cychwynnol achosion troseddol.  Mae'r Llywodraeth yn gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad ac y gallai fod yn siomedig nad yw'r buddsoddiad ychwanegol yn mynd ar drywydd y meysydd hyn ar hyn o bryd. Bydd y Llywodraeth yn parhau i adolygu'r sefyllfa.